***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 177 (Cy.28)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi 'u gwneud* | - - | *31 Ionawr 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Chwefror 2006* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 89(8)(e) ac (f), a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwyso ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y rheoliadau hyn—

ystyr "cynigion statudol" ("*statutory proposals*") yw cynigion a gyhoeddwyd o dan adran 28;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "nifer a dderbynnir" ("*admission number*") yw nifer y disgyblion yn unrhyw grŵp oedran perthnasol y bwriedir eu derbyn yn unrhyw flwyddyn ysgol fel a benderfynir neu, lle bo'r cyd-destun yn mynnu, y bwridedir ei benderfynu, gan awdurdod derbyn yn unol ag adran 89A(1);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y rheoliadau hyn at adran â Rhif neu Atodlen â Rhif yn gyfeiriad at yr adran honno o'r Ddeddf neu'r Atodlen honno i'r Ddeddf.

### Amrywio'r trefniadau derbyn

**3.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi at ddibenion adran 89(8)(e) yr amgylchiadau pan gaiff awdurdod derbyn, ar ôl iddo benderfynu'r trefniadau derbyn a fydd yn gymwys ar gyfer blwyddyn

(**1**) 1998 p.31. Ar gyfer diffiniad "*prescribed*" a "*regulations*" *gweler adran* 142 o Ddeddf 1998.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

ysgol benodol, (yn ychwanegol at yr amgylchiadau a nodir yn adran 89(5)) amrywio'r trefniadau hynny.

(2) Caiff awdurdod derbyn amrywio'r nifer a dderbynnir os yw amrywiad o'r fath yn angenrheidiol i weithredu y cynigion statudol—

(a) os cafodd y cynigion eu cymeradwyo o dan baragraff 8 o Atodlen 6; neu

(b) os yw'r corff neu'r hyrwyddwyr a gyhoeddodd y cynigion wedi penderfynu o dan baragraff 9 o'r Atodlen honno weithredu'r cynigion.

(3) Nid yw gofynion adran 89(5) i (7) (amrywio arfaethedig ar drefniadau derbyn wrth ystyried newid mawr mewn amgylchiadau) yn gymwys i amrywiad arfaethedig o dan paragraff (2).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*

31 Ionawr 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r amgylchiadau y caiff awdurdod derbyn (yn ychwanegol at yr amgylchiadau a nodir yn adran 89(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Deddf 1998)) amrywio'r trefniadau derbyn y mae wedi'u penderfynu ar gyfer blwyddyn ysgol benodol.

Mae rheoliad 3 yn darparu y caiff awdurdod derbyn, heb weithdrefnau pellach neu gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, amrywio'r nifer a dderbynnir y mae wedi'i benderfynu ar gyfer unrhyw grŵp oedran perthnasol lle bo'n angenrheidiol i weithredu cynigion statudol a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd o dan adran 28 o Ddeddf 1998, a bod angen amrywio'r nifer a dderbynnir i weithredu'r cynigion hynny. Yn yr amgylchiadau hynny, nid yw'r gweithdrefnau newid trefniadau derbyn yn adran 89(5) i (7) o'r Ddeddf 1998 yn gymwys.